**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Ann Jones AC AM**
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Chair, Communities, Equalities and Local Government Committee

5 Mawrth 2012

Annwyl Ann

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Darpariaeth annigonol o doiledau cyhoeddus**

Byddwch yn ymwybodol bod deiseb, sy'n galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i'r goblygiadau i iechyd a lles cymdeithasol o gau toiledau cyhoeddus, wedi dod i law y Pwyllgor Deisebau. Mae hefyd yn gofyn iddo annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau ar gyfer llywodraeth leol sy'n sicrhau bod darpariaeth ddigonol o doiledau cyhoeddus ar gael.

Cyfeiriwyd y ddeiseb at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Mehefin 2011 a chynhaliwyd ymchwiliad undydd ar 19 Ionawr 2012 i ystyried y goblygiadau i iechyd a lles cymdeithasol o gael darpariaeth annigonol o doiledau cyhoeddus. Deallaf hefyd i'r Pwyllgor Deisebau ysgrifennu at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i ofyn a fyddai'n fodlon ystyried elfennau llywodraeth leol a chydraddoldeb y ddeiseb. Mae adroddiad ar y dystiolaeth a ddaeth i law wedi'i atodi i'r llythyr hwn, er gwybodaeth.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddaeth i law, mae'r Pwyllgor o'r farn bod yr achos dros gael darpariaeth well o doiledau cyhoeddus, er lles iechyd cyhoeddus, yn un cryf. Yn ychwanegol at hynny, mae'r Pwyllgor yn credu bod y dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu bod achos prima facie dros gynnal ymchwiliad pellach i ddarpariaeth awdurdodau lleol o gyfleusterau toiledau cyhoeddus. Gwnaethpwyd cyfres o awgrymiadau ymarferol gan dystion o ran sut y gellid cynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus yn well, er mwyn cael gwell canlyniadau i iechyd cyhoeddus. Rydym o'r farn y gallai pobl sydd â mwy o arbenigedd mewn materion llywodraeth leol ymchwilio i'r atebion posibl hyn.

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8403
E-bost / Email: PwyllgorIGC@cymru.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y dylwn i, fel Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, ddwyn y mater hwn i'ch sylw. Pan fydd eich Pwyllgor yn ystyried ei flaenraglen waith, rwy'n gobeithio y gallwch ystyried y mater hwn ac ymchwilio iddo ymhellach.
Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i dynnu eu sylw at y gwaith pwysig hwn.

Yn gywir



**Mark Drakeford AC AM**
Cadeirydd - Chair

**Cc** Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau